

Eich Gwiriad Coluddyn

Canllaw rhagarweiniol i
gael colonosgopi

Os gofynnodd eich meddyg i chi i gael colonosgopi, mae hynny oherwydd bod amau nad yw rhywbeth yn hollol iawn gyda'ch coluddyn neu'ch colon, ac maen nhw, fel arbenigwr, eisiau edrych yn agosach. Mae'r broses yn cynnwys endosgopydd, a fydd yn rhoi tiwb tenau hyblyg gyda camera ar y pen, i fyny eich pen-ôl er mwyn gweld y tu mewn i'ch coluddyn.


Mae colonosgopi yn weithdrefn gyffredin iawn. Mae miloedd o golonosgopïau yn digwydd yn y DU bob wythnos. Y rheswm eu bod mor gyffredin yw eu bod yn hynod o effeithiol. Maent nhw'n rhoi golwg fewnol agos iawn i endosgopyddion o'ch coluddyn er mwyn iddynt weld yn glir os oes rhywbeth o'i le.

Gall colonosgopi deimlo bach yn anghyfforddus, ond mae'n rhan bwysig o gynnal iechyd da yn gyffredinol.

“

Roedd y broses yn syml iawn, yn drefnus, yn ddi-boen. Roedd pawb mor hyfryd, doedd dim i gwyno amdano. ”

Matthew
Claf colonosgopi



Felly dyma beth sy'n rhan o'r broses...



Cyn eich colonosgopi gofynnir i chi i yfed carthydd cryf. Mae hyn yn glanhau'ch coluddyn yn drylwyr fel y gall yr endosgopydd weld unrhyw newidiadau. Ond bydd yn golygu teithiau aml i'r tŷ bach.



Pan gyrhaeddwch eich apwyntiad gofynnir i chi newid i mewn i gwn sy'n eich gorchuddio yn ystod y colonosgopi. Bydd nyrs yn egluro'r broses, ac yn gofyn i chi i orwedd ar eich ochr. Yna bydd yr endosgopydd yn rhoi tiwb tenau hyblyg gyda chamera ar y pen i fyny'ch pen ôl fel y gallant weld y tu mewn i'ch coluddyn.



Mae'r broses fel arfer yn ddi boen a dim ond yn cymryd tua 30 munud - ond gall fod yn rhywfaint o anghysur, felly byddwch chi'n cael cynnig cyffur lladd poen neu dawelydd os y dymunwch.



Gall yr endosgopydd dynnu polypau (tyfiannau nad ydynt yn ganseraidd) neu samplau meinwe os ydyn nhw'n credu bod angen edrych yn agosach ar unrhyw beth.



Bydd dim canser y coluddyn ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n cael colonosgopi. Ond, os canfyddir canser y coluddyn yn ei gyfnod cynharaf, mae bron pawb yn cael triniaeth lwyddiannus.




Dyna pam, os oes gennych apwyntiad ar gyfer colonosgopi, mae'n bwysig iawn eich bod chi'n ei fynyachu - gadewch i ni gadw'ch coluddyn mewn iechyd da.

Colonosgopi - eich gwiriad coluddyn

01



02



03



04



05



06



Cwestiynau Cyffredin

Byddwch yn derbyn gwybodaeth gan yr ysbyty am eich colonosgopi, ond efallai yr hoffech ofyn rhai cwestiynau eich hun:

- ✓ Pa mor hir mae'n ei gymryd?
- ✓ A fydd y person sy'n perfformio'r colonosgopi yn ddyn neu'n fenyw?
- ✓ A fydd unrhyw anghysur?
- ✓ Pa mor breifat yw ardal yr ysbyty lle mae colonosgopiau yn digwydd?
- ✓ Beth sydd angen i mi ei wneud o flaen llaw?
- ✓ A ddylwn i ddod â rhywun gyda mi?
- ✓ Sut fydda i'n teimlo ar ôl y colonosgopi?
- ✓ Beth alla i fwyta ar ôl y colonosgopi?
- ✓ A fydd unrhyw beth ar gael i leddfu poen?
- ✓ A fydd fy urddas yn cael ei gadw?
- ✓ Beth ddylwn i ddod gyda mi?
- ✓ Pryd y byddaf yn cael fy nghanlyniadau?



Roedd fy mhryderon am boen ac anghysur yn hollol ffug. Mae'n rhoi tawelwch meddwl i chi. Os nad yw'n ddim, mae hynny'n iawn. Os ydyn nhw'n dod o hyd i ryw beth mae'n cael ei drin oherwydd ei fod wedi cael ei ganfod yn gynnar.



Daksha
Claf colonosgopi



I ddarganfod mwy am gael colonosgopi, ac i glywed profiadau cleifion eraill, ymwelwch â thudalen wê Colonosgopy Confidence.

bowelcanceruk.org.uk/colonoscopyconfidence